

**Cofnodion Cyfarfod o'r Pwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr Harbwr
CEI NEWYDD**
**a gynhaliwyd yn hybrid yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron
ac o bell drwy fideo-gynadledda ddydd Iau, 27 Mawrth 2025**

Cynrychiolaeth Cyngor Sir Ceredigion: y Cynghorydd Keith Henson (Cadeirydd) y Cynghorwyr Elizabeth Evans, Matthew Vaux a Shelly Childs

Swyddogion yn bresennol: Owen Morgan, Katy Spain, Robyn Beresford, Dana Jones

Defnyddwyr Harbwr: Chris Seal, Jonathan Evans, Steve Webb, Martin Wood, Damien Lawson, Mike Masters

(6.15pm – 6:45pm)

1. **Ymddiheuriadau**
Dim.

2. **Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2024**
CYTUNWYD i gadarnhau cofnodion cyfarfod 14 Hydref 2024 fel cofnod cywir.

3. **Diweddariad ar Wasanaethau'r Harbwr**

- Cynhaliwyd proses recriwtio i benodi Cynorthwydd Harbwr Tymhorol yn dilyn ymddiswyddiad Chris Cattaway. Bydd Eva Rees yn dechrau yn ei swydd fel Cynorthwydd Harbwr Tymhorol ar 03 Ebrill 2025. Roedd Robyn Beresford wedi llwyddo i sicrhau swydd Arweinydd Gwaith Harbwr yn dilyn ymddiswyddiad Chay Sanders. Bydd recriwtio yn agor ar gyfer Cynorthwydd Harbwr Tymhorol i gymryd lle Robyn a'r gobaith yw penodi un o'r ymgeiswyr blaenorol ar gyfer y Cynorthwydd Harbwr Tymhorol a gafodd ei hysbysebu yn ddiweddar.
- Roedd trwydded newydd wedi'i gychwyn rhwng y Cyngor a Chlwb Hwyllo Cei Newydd ar gyfer storio dingis. Roedd disgwyl i'r drwydded ddechrau ar 1 Ebrill 2025.
- Darparwyd diweddariad ar y Cynllun Amddiffyn Arfordirol a'r cymhorthion i drefniadau mordwyo a oedd yn cynnwys Rheolwr yr Harbwr yn arddangos diagramau yn y cyfarfod. Byddai Rheolwr yr Harbwr yn anfon Hysbysiad Lleol i Forwyr ar y diwrnod canlynol yn esbonio'r newid i farciau arbennig yn harbwr Aberaeron a gytunwyd arno gan Trinty House. NODYN AR ÔL Y CYFARFOD – Gellir dod o hyd i gopi o Hysbysiad Lleol i Forwyr AE 03.25: <https://www.ceredigion.gov.uk/media/bnzdzy0/ae-no-0325-aberaeron.pdf>
- Atgoffwyd defnyddwyr yr Harbwr eu bod yn cael eu hannog i gysylltu â'r Gwasanaeth Harbwr y tu allan i gyfarfodydd Pwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr Harbwr, drwy Clic a'r Cymorthfeydd Harbwr.

4. **Rhestr Aros Angori wedi'i golygu**
Cytunwyd i nodi'r rhestr aros angori fel y'i cyflwynwyd.

Ceisiwyd eglurhad ynghylch a oedd unrhyw leoedd ar gael ar y rac caiaic ar hyn o bryd. Adroddwyd bod y rac yn llawn ar hyn o bryd pe bai pawb yn adnewyddu eu lleoedd ar gyfer tymor 2025.

5. **Cynnal a Chadw Cyffredinol a Glendid**

- Roedd golau Penpolion wedi'i atgyweirio a threfnwyd atgyweiriadau i farc Carreg Ina Cardinal y Gogledd ar gyfer pryd y byddai'r contractwr yn bresennol yn y dyfroedd lleol.
- Roedd carthu yn mynd rhagddo yn yr harbwr ar hyn o bryd ac roedd disgwyl i'r gwaith gael ei gwblhau yn y dyddiau nesaf. Cododd defnyddwyr harbwr bryder ynglŷn â chronni deunydd wrth ochr y llithrfa a adroddwyd ei fod yn achosi problem ar lanw is yn ogystal ag ar gyfer cerbydau sy'n ceisio gadael y traeth wrth adfer cychod. Cadarnhawyd nad oedd y gwaith carthu presennol yn cynnwys tynnu unrhyw ddeunydd yn y lleoliad hwn ond y byddai'r Rheolwr Harbwr yn gwneud ymholiadau'n fewnol ynghylch a oedd yn cael ei ganiatáu o dan y Drwydded Forol i ymgymryd â gwaith ychwanegol yn y lleoliad hwn, ac os oedd, a oedd opsiwn i ymestyn cwmipas y contract presennol.
- Cadarnhawyd bod rhaglen waith yn ymwneud â chylchoedd angori wedi'i pharatoi a bod y gwaith ar hyn o bryd gyda'r Gwasanaeth Caffael i'w symud rhagddo.
- Roedd gwaith yn ymwneud â rhai ardaloedd o reiliau hefyd wedi'u nodi ac roedd hefyd gyda'r Gwasanaeth Caffael i symud ymlaen.
- Adroddwyd bod rhaglen golchi'r llithrfa yn cael ei pharatoi ar gyfer y tri harbwr. Disgwyliwyd y byddai'r llithrfeydd yn cael eu golchi sawl gwaith trwy gydol y tymor yn unol ag adnoddau.

6. **Materion a godwyd gan Ddefnyddwyr Harbwr**

Dywedodd defnyddiwr harbwr ei fod yn cael heriau wrth drefnu lansio a chodi cychod, a chost uchel wasanaethau carne a'r angen am fwy o gychod i'w wneud yn economaidd hyfyw. Dywedodd ei fod yn ystyried canslo lansiad 11 Ebrill a'i symud i'r 26 Ebrill i gael mwy o gyfranogwyr. Nodwyd y gallai'r gost gynyddol a'r duedd o gychod llai bod yn effeithio ar logisteg lansio a chodi. Gofynnwyd i gadarnhad o ddyddiad arfaethedig y lifft gael ei ddarparu unwaith y bydd defnyddiwr yr harbwr wedi gwneud penderfyniad.